


# Cynllun Iaith Gymraeg

Hydref 2023



## Cynnwys

<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>3</b>
Cefndir y sefydliad.....	3
<b>Darparu Gwasanaethau.....</b>	<b>4</b>
Ein swyddogaethau a'n gwasanaethau rheoleiddio a wneir ar ein rhan gan drydydd partïon .....	5
Safonau ansawdd .....	5
Gohebiaeth.....	5
Galwadau ffôn.....	6
Cyfarfodydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd.....	7
Cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd.....	7
Ymgynghoriadau cyhoeddus .....	8
Digwyddiadau cyhoeddus.....	8
Cyhoeddusrwydd a hysbysebu.....	9
Y cyfryngau.....	10
Gwefannau a gwasanaethau digidol .....	10
Y cyfryngau cymdeithasol.....	11
Cyhoeddiadau .....	11
Ffurflenni a holiaduron, a deunydd eglurhaol cysylltiedig.....	12
Hunaniaeth gorfforaethol .....	12
Arwyddion.....	13
Hysbysiadau swyddogol .....	13
Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Gymraeg a ddarperir .....	14
<b>Arolygon .....</b>	<b>14</b>
Arolygon i gartrefi ac unigolion .....	14
Arolygon busnes .....	15
<b>Gweithredol.....</b>	<b>15</b>
Dyfarnu grantiau, benthyciadau a chontractau .....	15
Gwasanaethau TG .....	16
Y fewnrwyd a chyfathrebu mewnol.....	16
Derbyn ymwelwyr i swyddfeydd a safleoedd yng Nghymru .....	16
Staffio .....	16
Recriwtio.....	17
Cyrsiau a gaiff eu cynnig i staff.....	17
Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi'r adran ar y Gymraeg.....	18
<b>Corfforaethol.....</b>	<b>18</b>

## Cynllun Iaith Gymraeg

Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau .....	18
Gweithio mewn partneriaeth .....	19
Trefniadau mewnol.....	19
Cwynion gan staff.....	20
Gweithdrefnau disgyblu .....	20
Deddf Rhyddid Gwybodaeth.....	20
Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant .....	21
Monitro.....	21
Adolygu a diwygio'r Cynllun .....	22

## Cyflwyniad

Mae'r Cynllun hwn yn disgrifio sut y bydd Awdurdod Ystadegau'r DU, gan gynnwys ei gangen weithredol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) a'r gangen reoleiddiol i'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, cyn belled â'i fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r holl wybodaeth a roddir yn y cynllun hwn yn berthnasol i wasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru, ni waeth ble mae'r staff neu'r timau sy'n cyflawni'r gwaith wedi'u lleoli.

Yn y cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn cyfeirio at unigolion, pobl gyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac unigolion eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd wedi'u cynnwys o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, hyd yn oed os ydynt yn unigolion cyfreithiol, wedi'u cynnwys o fewn ystyr y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg yng [nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg](#).

Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth ein cynllun blaenorol i rym ym mis Rhagfyr 2007. Cymeradwywyd y cynllun diwygiedig hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar **05/10/2023**.

## Cefndir y sefydliad

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn gorff statudol annibynnol sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth y llywodraeth fel adran anweinidogol ac mae'n atebol yn uniongyrchol i Senedd Cymru, Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae gan yr Awdurdod amcan statudol, sef hyrwyddo'r gwaith o gynhyrchu a chyhoeddi ystadegau swyddogol sydd 'o fudd i'r cyhoedd', a diogelu'r ystadegau hynny.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw cynhyrchydd ystadegau swyddogol annibynnol mwyaf y DU ac mae'n sefydliad ystadegol cenedlaethol cydnabyddedig. Mae'n

gyfrifol am gasglu a chyhoeddi ystadegau sy'n ymwneud â'r economi, y boblogaeth a chymdeithas ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel leol.

Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau sy'n gyfrifol am swyddogaeth rheoleiddio annibynnol yr Awdurdod. Mae ganddi swyddfeydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae'n cyflawni swyddogaeth rheoleiddio annibynnol mewn perthynas â'r holl ystadegau swyddogol a gaiff eu cynhyrchu yn y DU. Ei nod yw gwella hyder y cyhoedd yn nibynadwyedd, ansawdd a gwerth ystadegau a gaiff eu cynhyrchu gan y llywodraeth, fel y nodir yn y safonau a ddiffinnir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

## **Darparu Gwasanaethau**

Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg fel arfer.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Mae gan gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gyfrifoldeb am yr agweddau ymarferol ar safonau darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol, a sicrhau y cydymffurfir â nhw, gan gynnwys unrhyw safonau a nodir yn eu priod Gynlluniau Iaith Gymraeg neu yn Safonau'r Gymraeg. Drwy ddilyn y darpariaethau a nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg hwn, byddwn yn cefnogi darpariaeth Gymraeg berthnasol cyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac yn sicrhau nad ydym yn tanseilio eu cynlluniau iaith Gymraeg.

## **Ein swyddogaethau a'n gwasanaethau rheoleiddio a wneir ar ein rhan gan drydydd partïon**

Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon yn gyson â'r rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fydd y contractau neu'r trefniadau hynny'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau o dan gontract allanol, rhoi trwyddedau a chaniatadau eraill.

## **Safonau ansawdd**

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran ansawdd ac fe'u darperir o fewn yr un amserlen.

## **Gohebiaeth**

*Mae hyn yn berthnasol i ohebiaeth ysgrifenedig a thrwy e-bost.*

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os bydd angen ymateb). Bydd yn cymryd yr un faint o amser i ymateb ag y byddai i ymateb i ohebiaeth Saesneg.

Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn anfon llythyr safonol neu gylchlythyr at sawl un yng Nghymru, bydd hwnnw'n ddwyieithog oni wyddom y byddai'n well gan bob un ei dderbyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Os bydd angen i ni gynhyrchu fersiynau o ohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Bydd dogfennau amgaeëdig a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog hefyd.

Bydd dogfennau amgaeëdig a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg.

Bydd pob math o ohebiaeth Gymraeg y byddwn yn ei hanfon ar ffurf copi caled yn cael ei llofnodi yn yr un modd â'r fersiwn Saesneg.

Bydd pob math o ohebiaeth drwy e-bost yn Gymraeg y byddwn yn ei hanfon yn cynnwys llofnod electronig Cymraeg (neu ddwyieithog) yn yr un modd â'r fersiwn Saesneg.

Bydd angen i bob maes busnes ddatblygu system i gofnodi dewis iaith y rheini sy'n dymuno gohebu â ni yn Gymraeg.

## Galwadau ffôn

Byddwn yn sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn. Mae'r rhif isod yn galluogi defnyddwyr i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth gysylltu â'r sefydliad:

Ymholiadau Cyffredinol ac Ystadegol (Casnewydd): 0345 601 3034

Byddwn yn annog ein staff yng Nghymru i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol (os oes ganddynt rai).

Bydd galwyr sy'n cysylltu â'r prif rif ymholiadau ar gyfer y swyddfa yng Nghasnewydd yn cael cyfarchiad dwyieithog.

Bydd ein prif switsfwrdd yng Nghymru yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb.

Os yw'r galwr am siarad Cymraeg, bydd ein switsfwrdd yn ceisio cysylltu'r alwad â siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio'r â'r ymholiad.

Os bydd galwr yn ffonio aelod o staff yn uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond nid yw'r unigolyn sy'n derbyn yr alwad yn gallu gwneud hynny, bydd yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad, rhoddir y dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, o gael siaradwr Cymraeg i'w ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg drwy lythyr neu e-bost.

Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn, neu gyfleusterau tebyg, i ddarparu gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg.

### **Cyfarfodydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd**

Os byddwn yn gwahodd rhanddeiliad allanol i gyfarfod a'i fod yn nodi ymlaen llaw yr hoffai ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, yna byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Os byddwn yn gwahodd mwy nag un rhanddeiliad allanol i gyfarfod a bod o leiaf 10% ohonynt wedi nodi yr hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, yna byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

### **Cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd**

Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod sydd ar agor i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn nodi ar yr holl ddeunyddiau hysbysebu a gwahoddiadau fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg.

Caiff yr holl ddeunyddiau i hysbysebu cyfarfod sydd ar agor i'r cyhoedd yng Nghymru eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dylem wahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw pa iaith yr hoffent ei defnyddio yn y cyfarfod, ac os hoffai unrhyw un ddefnyddio'r Gymraeg, yna byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Os byddwn wedi cael gwybod bod unrhyw gyfranogwyr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, bydd y rheini sy'n mynd i'r cyfarfod yn cael gwybod bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael a'n bod yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg.

Os na fyddwn yn gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni am eu dewis iaith ymlaen llaw, yna byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg fel mater o drefn.

Os byddwn yn gwahodd siaradwyr i gyfarfod sydd ar agor i'r cyhoedd, byddwn yn gofyn i bob person a wahoddir i siarad a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg. Os bydd o leiaf un o'r bobl hynny wedi rhoi gwybod i ni yr hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.

Byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg oni fyddwn wedi cadarnhau y bydd pob cyfranogwr yn defnyddio'r un iaith.



Bydd adroddiadau neu bapurau a gynhrychir yn dilyn cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg (oni bai bod yr holl gyfranogwyr wedi defnyddio'r un iaith).

## **Ymgynghoriadau cyhoeddus**

Pan fyddwn yn trefnu ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru, neu sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn nodi ar yr holl ddeunyddiau hysbysebu a gwahoddiadau fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff yr holl ddeunyddiau i hysbysebu ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru, neu sydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dylem wahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw pa iaith yr hoffent ei defnyddio yn ystod yr ymgynghoriad, ac os hoffai unrhyw un ddefnyddio'r Gymraeg, yna byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Os byddwn wedi cael gwybod bod unrhyw gyfranogwyr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, bydd y rheini sy'n mynd i'r cyfarfod yn cael gwybod bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael a'n bod yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg.

Os na fyddwn yn gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni am eu dewis iaith ymlaen llaw, yna byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg fel mater o drefn.

Byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall sy'n cefnogi ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru, neu sydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff y ddwy fersiwn eu darparu ar yr un pryd.

Bydd unrhyw adnoddau digidol a ddarperir fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru, neu sydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd adroddiadau neu bapurau a gynhrychir yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru, neu sydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg (oni bai bod yr holl gyfranogwyr wedi defnyddio'r un iaith).

## **Digwyddiadau cyhoeddus**

Os byddwn yn trefnu digwyddiad cyhoeddus yng Nghymru, wrth hyrwyddo'r digwyddiad byddwn yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (er enghraifft, yn y ffordd y caiff y digwyddiad ei hysbysebu neu ei hyrwyddo).

Mewn unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus yng Nghymru a drefnwyd gennym, byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau a gynigir i bobl sy'n mynd i'r digwyddiad, yn ogystal â'r arwyddion a gaiff eu harddangos yn y digwyddiad a chyhoeddiadau a wneir dros systemau sain, yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.

Wrth staffio stondinau arddangos ac arddangosiadau cyhoeddus yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn bresennol, yn ôl yr angen. Bydd unrhyw arddangosiadau clyweledol, teithiau tywys sain neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

## **Cyhoeddusrwydd a hysbysebu**

*Mae hyn yn berthnasol i ymgyrdd ag unrhyw ymgyrch cyhoeddusrwydd neu hysbysebu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.*

Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu y byddwn yn ei gynhyrchu a'i ddefnyddio yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gellir ei gynhyrchu ar ffurf ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Os bydd angen cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Gymraeg o'r un fformat, amlygrwydd ac ansawdd â'r un Saesneg ac y bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac y bydd yr un mor hawdd cael gafael arnynt.

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir yn y papurau newydd Saesneg (neu debyg) a ddosberthir yn bennaf neu yn gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac o'r un fformat, amlygrwydd ac ansawdd).

Bydd hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.

Trefnir hysbysebion teledu, sinema a radio yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir ar BBC Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

Wrth gynhyrchu deunydd fideo fel rhan o ymgyrch cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd, os bydd y pwnc yn berthnasol ac o ddiddordeb i Gymru neu'r cyhoedd yng Nghymru, caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cynhyrchu. Byddwn yn osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg ar fideos Saesneg eu hiaith neu ddybio hysbysebion i'r Gymraeg (ac eithrio trosleisio).

Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu byddant yn cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

## **Y cyfryngau**

Dylai datganiadau i'r wasg gael eu cynhyrchu a'u dosbarthu yn Gymraeg ac yn Saesneg os bydd y pwnc yn berthnasol ac o ddiddordeb i Gymru neu'r cyhoedd yng Nghymru.

Caiff datganiadau newyddion ar gyfer y wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn benodol eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, neu yn ôl dewis iaith y sefydliad cyfryngau neu'r cyhoeddiad sy'n derbyn y datganiad.

Pan fyddwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg neu ddatganiadau newyddion ar ein gwefan, byddwn yn eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg pan fyddant yn berthnasol ac o ddiddordeb i Gymru neu'r cyhoedd yng Nghymru.

Caiff pob datganiad i'r wasg a roddir i'r cyfryngau Cymraeg ei gyhoeddi'n Gymraeg. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gynnal cyfweiliadau â'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

## **Gwefannau a gwasanaethau digidol**

Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Pan fydd gennym dudalennau gwe Cymraeg sy'n cyfateb i dudalen we Saesneg, byddwn yn sicrhau bod y dudalen we Saesneg yn nodi'n glir fod y dudalen ar gael yn Gymraeg hefyd, a bod dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod y rhyngwyneb defnyddwyr a'r dewislenni ar bob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dylai'r holl gynnwys statig sy'n cefnogi ein gweithrediadau ac sy'n berthnasol ac o ddiddordeb i Gymru neu'r cyhoedd yng Nghymru fod ar gael yn ddwyieithog. Byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.

Pan fyddwn yn cyhoeddi cyhoeddiadau ar ein gwefannau, caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar yr un pryd, lle y bo'n berthnasol.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau darpariaeth ddwyieithog.

## Y cyfryngau cymdeithasol

Bydd ein gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â phynciau penodol i Gymru, neu yr ystyrir eu bod yn berthnasol ac o ddiddordeb i Gymru neu'r cyhoedd yng Nghymru, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Pan fyddwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd cynnwys digidol a gaiff ei gynhyrchu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg os bydd yn ymwneud â phynciau penodol i Gymru neu yr ystyrir eu bod yn berthnasol i gynulleidfa yng Nghymru.

## Cyhoeddiadau

*Mae hyn yn berthnasol i ddogfennau ffisegol yn ogystal â dogfennau a gaiff eu cyhoeddi'n electronig.*

Byddwn yn cynhyrchu cyhoeddiadau dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg ar bynciau sy'n berthnasol ac o ddiddordeb i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pynciau sy'n ymwneud â'r DU gyfan, gan gynnwys dadansoddiadau sy'n berthnasol ac o ddiddordeb i Gymru neu'r cyhoedd yng Nghymru, yn ogystal â phynciau sy'n ymwneud â Chymru yn unig (e.e. y Gymraeg). Ni fydd angen cyfieithu pynciau sy'n berthnasol i Loegr yn unig.

Mae Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU wedi llunio siart lif, y mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno arni, er mwyn nodi'n glir ac yn wrthrychol pa ddeunyddiau ddylai gael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer cynulleidfa yng Nghymru. Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn rhoi arweiniad a chymorth i feysydd busnes ar faterion sy'n ymwneud â chyfieithu.

Os bydd angen cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn o'r un ansawdd a fformat, a byddwn yn sicrhau eu bod ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd cael gafael arnynt. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Os codir tâl am gyhoeddiad, ni fydd pris y fersiwn Gymraeg yn uwch na phris y fersiwn Saesneg, ac ni fydd pris y fersiwn ddwyieithog yn fwy na fersiwn iaith unigol.

## Cynnwys technegol

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd angen cynhyrchu cynnwys yn Gymraeg os ystyrir ei fod yn ystadegol dechnegol, neu'n arbenigol mewn ffordd ddadansoddol arall. Y rheswm am hyn yw mai dim ond nifer cyfyngedig iawn o ddefnyddwyr

technegol a/neu ddadansoddwyr arbenigol sy'n defnyddio'r mathau hyn o ddogfennau neu ddata fel arfer.

Gallai hyn gynnwys erthygl fethodolegol neu setiau data ar gyfer defnyddwyr technegol. Gallai hefyd gyfeirio at gynnwys sydd ar gyfer gweithwyr dadansoddol proffesiynol y byddai'n anodd ei ddeall heb wybodaeth arbenigol am bwnc, neu sy'n cynnwys llawer iawn o dermau sy'n ymwneud â gwybodaeth, systemau neu ddulliau a ddefnyddir mewn gwyddorau a diwydiannau penodol.

Byddwn yn nodi'n glir bod croeso i aelodau o'r cyhoedd ofyn am unrhyw ddogfennaeth dechnegol neu setiau data penodol yn Gymraeg, a darperir hyn mewn modd amserol.

## **Ffurflenni a holiaduron, a deunydd eglurhaol cysylltiedig**

Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen a holiadur, a deunydd eglurhaol cysylltiedig, a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog, a bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen, oni bai ein bod wedi cadarnhau dewis iaith unigolion ymlaen llaw. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol sydd ar gael ar ein gwefannau.

Os bydd angen cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflenni neu holiaduron ar wahân, bydd y ddwy fersiwn o'r un ansawdd a fformat, a byddwn yn sicrhau eu bod ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd cael gafael arnynt. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Pan fyddwn yn mewnbynnu gwybodaeth ar ffurflenni a holiaduron dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob un dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig. Yn yr un modd, pan fyddwn yn mewnbynnu gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a holiaduron a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni a holiaduron ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

## **Hunaniaeth gorfforaethol**

Bydd ein hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru yn ddwyieithog bob amser.

Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar unrhyw ddeunydd sy'n arddangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu fel cardiau busnes, bathodynau adnabod ar gyfer staff arolwg, cardiau, tocynnau, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch a gwahoddiadau.

Efallai y byddwn yn defnyddio brandio Cymraeg yn unig ar gyfer rhai mentrau.

Pan fyddwn yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno ein hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru, byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Arwyddion**

Pan fyddwn yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), yng Nghymru, byddant yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff y ddwy iaith eu cyflwyno'n gyfartal. Byddwn yn sicrhau bod arwyddion yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac y caiff y ddwy iaith eu cyflwyno yn yr un fformat a maint a gyda'r un ansawdd ac amlygrwydd.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Ein harfer orau ar gyfer arwyddion dwyieithog yw gosod y ddau destun ochr yn ochr os oes modd, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde. Os nad yw hyn yn bosibl, yna dylai'r testun Cymraeg ddod yn gyntaf, ac yna'r Saesneg.

Bydd yr uchod yn gymwys i bob math o arwydd, gan gynnwys arwyddion electronig.

## **Hysbysiadau swyddogol**

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Caiff hysbysiadau Cymraeg eu rhoi mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd p'un a fyddant wedi'u cynhyrchu fel fersiwn ddwyieithog unigol, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Gall swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol gael eu hysbysebu yn Gymraeg yn y cyfryngau Saesneg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Bydd hysbysiadau recriwtio mewn cylchgronau Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU yn Saesneg, oni fydd y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac os felly, bydd yr hysbysiad yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a osodir rywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd hysbysiadau recriwtio ar-lein ar gyfer swyddi yn ddwyieithog yn unol â gofynion perthnasol y swydd o ran y Gymraeg.

## **Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg a ddarperir**

Byddwn yn sicrhau ein bod yn mynd ati'n rhagweithiol i hysbysebu'r gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu, a byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd hyn yn cynnwys ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol, gohebiaeth ysgrifenedig ac unrhyw ddeunydd hyrwyddo neu hysbysebu yng Nghymru.

## **Arolygon**

### **Arolygon i gartrefi ac unigolion**

Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod pob agwedd ar ohebu â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Caiff llawer o'r arolygon o gartrefi ac unigolion a gynhelir gan yr Adran eu cynnal drwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb. Os bydd y rheini sy'n cael cyfweiliad yn nodi yr hoffent i'r cyfweiliad gael ei gynnal yn Gymraeg, byddwn yn darparu cyfwelwyr sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn anfon llythyrau dwyieithog ymlaen llaw at ddarpar gyfweledigion yng Nghymru yn eu gwahodd i roi gwybod i ni a ydynt am gael eu cyfweld yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd ffurflenni a holiaduron ar gyfer arolygon haenellwn ar gael yn ddwyieithog hefyd.

Caiff unrhyw ohebiaeth â chyfweledigion yng Nghymru, gan gynnwys llythyrau, e-byst a negeseuon testun, ei hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai bod yr unigolyn wedi nodi ym mha iaith y byddai'n well ganddo i ni ohebu.

Caiff arolygon sy'n ymwneud â chadw dyddiadur eu gweinyddu gan staff maes, a gall ymatebwyr ddarparu eu cyfraniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd unrhyw ddiweddariadau i weithrediadau sy'n ymwneud ag ymatebwyr yn cynnwys yr angen i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Bydd unrhyw gynlluniau i adnewyddu neu ddiweddarau meddalwedd sy'n ymwneud â chasglu data drwy arolygon yn ystyried gofynion dwyieithog a chydwedddoldeb.

## **Arolygon busnes**

Bydd pob ffurflen ar gyfer arolygon busnes a ddsberthir yng Nghymru yn cael eu darparu'n ddwyieithog, oni bai ein bod eisoes yn gwybod beth yw dewis iaith y rheini sy'n derbyn y ffurflenni.

Gallwn hefyd wahodd busnesau i roi gwybod i ni beth yw eu dewis iaith cyn dosbarthu ffurflenni arolygon, a byddant yn cael ffurflenni'r arolwg yn eu dewis iaith.

Byddwn yn cadw cofnod cyfredol o ddewis iaith busnesau rydym yn gohebu â nhw.

Mae hyn yn berthnasol i arolygon busnes digidol a rhai papur.

Bydd unrhyw gynlluniau i adnewyddu neu ddiweddarau meddalwedd sy'n ymwneud â chasglu data drwy arolygon yn ystyried gofynion dwyieithog a chydwedddoldeb.

## **Gweithredol**

### **Dyfarnu grantiau, benthyciadau a chontractau**

Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, byddwn yn nodi yn y gwahoddiad y gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac na chaiff tendr a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Byddwn yn sicrhau na chaiff tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymhlith materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer rhoi gwybod i'r sawl sy'n tendro am benderfyniadau).

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n tendro am benderfyniad ynghylch tendr, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os cafodd y tendr ei gyflwyno yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn gwahodd ceisiadau am grant neu fenthyciad, byddwn yn nodi yn y gwahoddiad y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, ac na chaiff unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Byddwn yn sicrhau na chaiff cais am grant neu fenthyciad a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymhlith materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, ac mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ymgeisydd am benderfyniad ynghylch cais am grant neu fenthyciad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os cafodd y cais ei gyflwyno yn Gymraeg.



## **Gwasanaethau TG**

Caiff meddalwedd gyfrifiadurol i wirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ei darparu i bob aelod o staff drwy ddarparu meddalwedd fel *Cysgliad* i bob maes busnes, a'r gallu i ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office drwy gyfrwng y Gymraeg.

Lle bo'n bosibl, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau y gallant ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

## **Y fewnwyd a chyfathrebu mewnol**

Mae rhyngwyneb mewnwyd yr adran yn Saesneg gan ein bod yn sefydliad sy'n gweithio ledled y DU. Fodd bynnag, dylai cynnwys yn ymwneud â'r Gymraeg ar y fewnwyd gael ei gynhyrchu'n ddwyieithog i staff yng Nghymru lle y bo'n berthnasol. Pan gaiff testun Cymraeg ei ddefnyddio ar y fewnwyd, bydd yn gwbl weithredol ac ni chaiff ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg cyfatebol. Ein harfer safonol yw y bydd y testun Cymraeg yn dod gyntaf, ac yna'r fersiwn Saesneg.

Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnal tudalen ddynodedig sy'n darparu gwasanaethau a deunydd ategol i hyrwyddo'r Gymraeg a helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Caiff y dudalen hon ei diweddarau'n rheolaidd.

## **Derbyn ymwelwyr i swyddfeydd a safleoedd yng Nghymru**

Byddwn yn sicrhau bod deunyddiau a gaiff eu harddangos yn ein derbynfeydd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.

Byddwn yn sicrhau bod staff y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yn gwisgo bathodyn iaith Gwaith i ddangos hynny.

## **Staffio**

Mae angen i bob un o'n gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru allu cael gafael ar ddigon o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg. Os bydd y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer swydd, caiff hyn ei nodi yn y disgrifiad swydd a'r hysbyseb ar gyfer y swydd.

Anogir staff i ddysgu Cymraeg neu i wellau eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Byddwn yn nodi ac yn asesu'r meysydd lle mae sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Byddwn yn cynnal archwiliadau blynyddol i ganfod nifer, lefel gallu a lleoliad y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg).

Caiff canlyniadau'r ddau ymarfer hyn eu cymharu i nodi meysydd busnes lle mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddiant.

Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo staff sy'n gallu siarad Cymraeg i lenwi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, byddwn yn gofyn am wybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr am swyddi a staff presennol.

## Recriwtio

Os ystyrir bod angen sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi gwag, caiff hyn ei nodi'n glir yn hysbysebion a gofynion y swydd..

Caiff swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg eu nodi mewn ffordd hawdd, effeithiol a chywir. Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn helpu'r Tîm Recriwtio i greu fframwaith i helpu rheolwyr i gynllunio eu timau a phenderfynu a oes angen staff arnynt sydd â sgiliau Cymraeg penodol, a pha mor hyfedr y dylai'r sgiliau hynny fod.

Darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi lle yr ystyrir bod sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Gall sgiliau Cymraeg amrywio o lefel gwrteisi, lle gall deiliad y swydd ynganu enwau Cymraeg ac adnabod cyfarchion sylfaenol, i'r rheini sy'n hyfedr iawn.

Byddwn yn sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol mewn unrhyw ffeiriau recriwtio y byddwn yn cymryd rhan ynddynt yng Nghymru.

## Cyrsiau a gaiff eu cynnig i staff

Anogir ein staff yng Nghymru i ddysgu neu wella eu gallu i siarad Cymraeg a byddwn yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd, neu sy'n delio â siaradwyr Cymraeg yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith.

Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, byddwn yn cefnogi ac yn ariannu hyfforddiant i staff sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau ac sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg.

Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithredu yn Gymraeg drwy roi hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg.

### **Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi'r adran ar y Gymraeg**

Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn sicrhau bod pob maes busnes yn ymwybodol o'r gofynion o ran y Gymraeg a nodir yn y cynllun hwn mewn perthynas â gwneud penderfyniadau polisi mewnol a fydd yn berthnasol i'n gwaith yng Nghymru a'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad.

## **Corfforaethol**

### **Polisiau, deddfwriaeth a mentrau**

Bydd ein polisiau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau beunyddiol.

Os byddwn yn cyfrannu tuag at ddatblygu neu gyflwyno polisiau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

Lle y bo'n berthnasol, bydd ein cyfraniad at ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

## **Gweithio mewn partneriaeth**

Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth a gaiff ei llywio gan sefydliad arall, bydd ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog ein partneriaid i gydymffurfio.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

## **Trefniadau mewnol**

Bydd gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Bydd y cyfarwyddwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w his-adrannau, gyda chefnogaeth Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU.

Rydym wedi sefydlu'r Gweithgor Cymraeg, sef fforwm trawsadrannol a gaiff ei gadeirio gan Hyrwyddwr y Gymraeg ac sy'n cynnwys uwch-aelodau o staff. Bydd y fforwm hwn yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn paratoi cynllun gweithredu manwl ac yn ei ddiweddarau'n barhaus. Cytunir ar y cynllun gyda Chomisiynydd y Gymraeg a bydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

Bydd y cynllun ar gael i staff ar fewnwyd yr adran a chaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynhyrchu cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, lle y bo'n briodol, ar gyfer ein staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau yn y cynllun hwn.

Caiff y cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, a ddefnyddir gan ein staff ar hyn o bryd eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau yn y cynllun hwn.

Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant ar gyfer ein staff i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Pan fyddwn yn defnyddio cyfieithwyr allanol, byddwn yn sicrhau eu bod yn gyfieithwyr cymwys wedi eu hachredu gan [Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru](#).

Caiff unrhyw fath o gyswilt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn ymdrin yn benodol ag ef, ei gynnal mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

### **Cwynion gan staff**

Byddwn yn sicrhau bod aelodau o staff yn gallu gwneud cwynion yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn a wneir amdanynt gan aelod arall o staff os byddant yn dymuno.

Caiff unrhyw benderfyniadau neu wybodaeth sy'n ymwneud â chwyn eu darparu yn Gymraeg os bydd yr aelod o staff yn dewis hynny.

Os na fydd aelodau priodol o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gynnal y weithdrefn gwyno yn Gymraeg, byddwn yn sicrhau y caiff gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ei ddarparu.

### **Gweithdrefnau disgyblu**

Gall staff ofyn am i weithdrefnau disgyblu gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Caiff unrhyw benderfyniadau neu wybodaeth sy'n ymwneud â gweithdrefn ddisgyblu eu darparu yn Gymraeg os bydd yr aelod o staff yn dewis hynny.

Os na fydd aelodau priodol o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gynnal y weithdrefn ddisgyblu yn Gymraeg, byddwn yn sicrhau y caiff gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ei ddarparu.

### **Deddf Rhyddid Gwybodaeth**

Pan gaiff cais Rhyddid Gwybodaeth ei dderbyn yn Gymraeg, bydd y llythyr eglurhaol a anfonir gydag unrhyw ymateb yn Gymraeg hefyd.

Os bydd y dogfennau y gwneir cais amdanynt eisoes ar gael yn Gymraeg, cânt eu darparu i'r ymgeisydd yn Gymraeg.

Yn unol â'r cynllun hwn, os dylai'r dogfennau y gwneir cais amdanynt fod ar gael yn Gymraeg, cânt eu darparu yn Gymraeg. Os bydd hyn yn golygu bod angen cyfieithiad o'r Saesneg, caiff ei wneud o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith, ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol â'r cynllun hwn, os nad oes angen i'r dogfennau y gwneir cais amdanynt fod ar gael yn Gymraeg, cânt eu darparu yn yr iaith wreiddiol.

Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ofyn am grynodedb yn hytrach na chopi o'r ddogfen. Byddwn yn ystyried cynhyrchu crynodeb byr lle y gwneir cais am hynny neu lle y credir bod hynny'n angenrheidiol, fel y gwneir gydag unrhyw gais Rhyddid Gwybodaeth. Fel arfer ni fydd crynodebau yn hwy nag ychydig gannoedd o eiriau. Mewn achosion lle y gwneir cais am grynodedb yn Gymraeg, byddwn yn cynhyrchu'r crynodeb yn Gymraeg, p'un a yw'r wybodaeth wreiddiol yn Gymraeg, yn Saesneg, neu mewn iaith arall.

### **Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant**

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am wasanaethau Cymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, i:

Tîm y Gymraeg

Yr Ysgrifenyddiaeth Polisi Ganolog

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Adeiladau'r Llywodraeth

Heol Caerdydd

Casnewydd

NP10 8XG

Neu drwy e-bost i: [cymraeg@ons.gov.uk](mailto:cymraeg@ons.gov.uk)

### **Monitro**

Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn ei gynllun gweithredu cysylltiedig.

Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

Byddwn yn anfon adroddiadau monitro blynyddol at Gomisiynydd y Gymraeg, gan amlinellu cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn.

## **Adolygu a diwygio'r Cynllun**

Bydd Tîm y Gymraeg Awdurdod Ystadegau'r DU yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd i'r dyddiad y daw i rym, a phob pedair blynedd ar ôl hynny.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd yn rhaid i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau iddo, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau lle rydym yn cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.